**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYMUNEDAU A MENTER**
**19 RHAGFYR 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mercher, 19 Rhagfyr 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ian Dunbar (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Rosetta Dolphin, Mared Eastwood, George Hardcastle, Dennis Hutchinson, Ted Palmer, Mike Reece, Paul Shotton a David Wisinger.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: David Cox a Jean Davies

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mynychodd y Cynghorydd Patrick Heesom fel sylwedydd

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Bernie Attridge, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Dai; Y Cynghorydd Derek Butler, Aelod Cabinet dros Ddatblygu Economaidd; Prif Swyddog (Tai ac Asedau); Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi); Rheolwr Gwasanaeth – Menter ac Adfywio; Rheolwr Cefnogi Cwsmeriaid; Rheolwr Strategaeth Tai; a'r Rheolwr Budd-daliadau.

Rheolwr Cyflawni, Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy (ar gyfer cofnod rhif 44)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau a Menter a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

## 41. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 42. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 30 Hydref a 7 Tachwedd 2018. Ar gofnodion 30 Hydref, nodwyd gwelliant yn y paragraff cyntaf.

Gofynnodd y Cynghorydd Hutchinson am i'w ymddiheuriadau gael eu cofnodi ar y ddau set o gofnodion.

**PENDERFYNWYD:**

Yn amodol ar y newidiadau, cymeradwywyd y ddau set o gofnodion fel cofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 43. SYLWADAU'R CADEIRYDD

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai Katie Clubb yn gadael y Cyngor i ymgymryd â swydd newydd. Wrth ddymuno'n dda iddi, mynegodd Aelodau eu

diolch i Katie am ei hymroddiad a'i gwaith caled yn ystod ei chyfnod yn Sir y Fflint.

## 44. CYMUNEDAU AM WAITH

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad i ddarparu gwybodaeth ar y gwasanaeth Menter ac Adfywio ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ynglŷn â chyflawni rhaglenni cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru yn Sir y Fflint.

Mewn ymateb i gais cynharach, cylchredwyd nodyn briffio gan y Rheolwr Gwasanaeth – Menter ac Adfywio, a rhoddodd drosolwg o'r swyddogaethau a'r gweithgareddau cyfredol o fewn pob maes gwasanaeth yn dilyn ailstrwythuro diweddar. Dangosodd diagram o'r strwythur newydd fod y mwyafrif o'r timau yn cael eu hariannu'n allanol. Nodwyd nifer o ddeilliannau cadarnhaol fel y gefnogaeth a roddwyd gan y tîm Menter Gymdeithasol i fusnes cymdeithasol yn cael ei gydnabod yng Ngwobrau Busnes Sir y Fflint yn ddiweddar yn ogystal â llwyddiant y tîm Economi Rhanbarthol yn sicrhau £9m o gyllid ar gyfer cysylltedd digidol. Byddai adroddiad ar waith gan y swyddogaeth Datblygu Rhaglen ar ddull i ddarparu gwerth cymdeithasol drwy weithgaredd caffael yn cael ei gynnwys yn y rhaglen ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym Mawrth.

Wrth groesawu'r wybodaeth cododd y Cynghorydd Dolphin bryderon am yr amser y mae'n ei gymryd i lenwi'r swydd wag i gefnogi adfywio canol y dref. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth fod adnoddau wedi lleihau dros amser yn ogystal â chefnogaeth cyllid allanol. Roedd anghenion canol trefi yn newid mewn ymateb i heriau economaidd yn genedlaethol, a byddai angen i swyddogion ystyried dull newydd o weithio mewn ffordd strategol i dargedu adnoddau'n effeithiol. Byddai adroddiad llawn ar ganol trefi yn cael ei dderbyn ym Mawrth/Ebrill.

Rhannwyd y pryderon hyn gan y Cynghorydd Hutchinson a ddywedodd fod yr effaith yn amlwg yng nghanol yr holl drefi, a siopau llai oedd yn wynebu'r risg mwyaf.

Tra'n rhoi sicrwydd y byddai adnoddau cyfyngedig y Cyngor yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol, dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) mai'r prif her i'r strydoedd mawr oedd y newid sylweddol yn y farchnad fanwerthu ar draws y DU ac mai ychydig o ddylanwad oedd gan yr Awdurdod Lleol dros hynny.

Rhannwyd y farn hon gan y Cynghorydd Butler a dynnodd sylw at y ffaith fod y cynnig ymhob canol tref yn wahanol. Dywedodd fod gan bawb ddyletswydd i gefnogi eu siopau lleol a bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei bwerau i gynyddu nifer yr ymwelwyr fel annog landlordiaid i sicrhau fod llety gwag ar gael uwchben siopau.

Dywedodd y Cynghorydd Palmer cyn penodi Rheolwr Canol Tref / Swyddog Adfywio y dylid cytuno ar y cylch gorchwyl cywir i sicrhau nad ydynt yn cael eu pardduo am beidio â gwneud y gwaith o fewn yr hinsawdd bresennol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Shotton at effaith siopa ar y we a gofynnodd am ryddhad ardrethi busnes Llywodraeth Cymru. Eglurodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y cyllid hwn yn cael ei roi yn awtomatig i fusnesau cymwys. Ar dwristiaeth dywedodd fod rhaglen waith ar y gweill i wella isadeiledd ymwelwyr yn yr ardaloedd arfordirol.

Roedd aelodau eraill yn cydnabod fod adfywio canol tref yn fater eang a oedd hefyd wedi cyflwyno problemau i Reolwyr Canol Tref.

Roedd Sharon Jones, Rheolwr Cyflawni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy yn bresennol i roi cyflwyniad ar y rhaglenni cyflogadwyedd yn Sir y Fflint i gefnogi cyfranogwyr i gyflogaeth a hunan gyflogaeth. Dangoswyd fideo byr i'r Pwyllgor a oedd yn darlunio'r gefnogaeth a roddwyd i brentisiaid oedd yn cymryd rhan ym mhrosiect 'Adeiladu Dyfodol' Wates Construction.

Roedd y rhaglen Cymunedau am Waith yn gyfyngedig i ardaloedd cod post cymwys ac yn cynnig cefnogaeth fentora ddwys i bobl oedd wedi bod yn ddi-waith am amser hir i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith neu addysg bellach. I'r rhai nad oeddent yn gymwys, roedd Cymunedau am Waith a Mwy yn cynnig amrediad o gefnogaeth gofleidiol i unrhyw un yn Sir y Fflint oedd angen cymorth i ddychwelyd i gyflogaeth. Roedd y Gronfa Waddol, a ddaw o dan y Gwasanaeth Menter ac Adfywio, yn canolbwyntio ar gefnogi'r Rhwydwaith Busnes Entrepreneuraidd a'r sector menter gymdeithasol.

Yn ystod y cyflwyniad, rhoddwyd eglurhad ar yr amrediad o brosiectau llwybr oedd yn anelu at roi'r sgiliau a'r profiad perthnasol i unigolion i fynd i mewn i'r farchnad lafur. Roedd y cyflwyniad hefyd yn amlygu straeon o lwyddiant ac roedd cyfranogwyr blaenorol y rhaglen nawr yn gweithredu fel mentoriaid. Roedd perfformiad yn 2018/19 ar y llwybr cywir ac roedd rhai ardaloedd eisoes yn mynd y tu hwnt i dargedau.

Aeth y Cynghorydd Butler ati i atgoffa fod pob un o'r tair rhaglen yn ddibynnol ar arian grant gan Lywodraeth Cymru a chanmolodd ymroddiad a brwdfrydedd y tîm yn sicrhau canlyniadau rhagorol.

Dywedodd y Rheolwr Cyflawni fod y rhaglen Cymunedau am Waith yn cael ei hariannu tan 2020 a bod cadarnhad llafar wedi ei dderbyn ar barhad cyllid ar gyfer y rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy tan 2020. Ond roedd yn annhebygol y byddai'r cyllid grant ar gyfer y Gronfa Waddol yn parhau y tu hwnt i 2020.

Mewn ymateb i ymholiad rhannwyd gwybodaeth ar brosiectau'r rhaglen o lwybrau i gefnogi'r sector gofal drwy weithio gyda darparwyr penodol a'r Bwrdd Iechyd. Eglurwyd fod y prosiectau wedi eu targedu at feysydd o angen neu ar gais busnes.

Gofynnodd y Cynghorydd Dolphin am i rannau o'r cyflwyniad nad yw'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad gael ei e-bostio i Aelodau (e.e. prosiectau llwybr wedi eu teilwra i gysylltu gyda swyddi gwag sydd ar ddod).

Yn ystod y drafodaeth canmolodd Aelodau y Rheolwyr a'u timau am eu llwyddiant ar y tair rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

Fod y Pwyllgor yn cefnogi'r cynnydd a wnaed mewn cyflawni'r rhaglenni cyflogaeth.

## 45. Y STRATEGAETH DIGARTREFEDD RHANBARTHOL A'R CYNLLUN GWEITHREDU LLEOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar ddatblygiad strategaeth ranbarthol a oedd yn ofyniad statudol. Siaradodd am fanteision partneriaeth ranbarthol oedd yn anelu at greu diwylliant o gydweithio gwell ac effeithiol i fynd i'r afael ag achosion creiddiol penodol digartrefedd. Cyfeiriwyd at ymagwedd ragweithiol y Cyngor o ran ymdrin â digartrefedd ieuenctid gan gynnwys gwaith ataliol yn gynnar mewn partneriaeth ag Addysg.

Eglurodd y Rheolwr Cefnogi Cwsmeriaid fod yr adolygiad cychwynnol wedi helpu i gadarnhau data presennol i fwydo i mewn i'r cynllun gweithredu lleol. Seiliwyd hyn ar y tair thema a gytunwyd ar gyfer y strategaeth ranbarthol - Pobl, Cartrefi a Gwasanaethau - ond hefyd roedd yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Nodwyd crynodeb o'r blaenoriaethau o dan bob thema yn yr adroddiad, oedd yn ymwneud â gweithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor. Awgrymwyd fod y rhaglen ar gyfer y Flwyddyn Newydd yn cynnwys datgan yr wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu lleol.

Aeth y Cynghorydd Attridge ati i gydnabod cryfder yr ymagwedd ranbarthol a rhoddodd sicrwydd fod blaenoriaethau lleol hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun gweithredu.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Palmer bwysigrwydd sicrhau fod darpariaeth ar gael wedi i berthynas ddod i ben. Cytunodd y Rheolwr Cefnogi Cwsmeriaid i siarad gydag ef y tu allan i'r cyfarfod ynglŷn â mater yn ei ward. Yn dilyn cais gan y Cynghorydd Hardcastle cytunodd i gylchredeg manylion ynglŷn â'r nifer o unigolion digartref sydd ar hyn o bryd wedi eu lleoli mewn llety Gwely a Brecwast.

Siaradodd y Cynghorydd Butler am yr angen am ymyrraeth gan Lywodraethau'r DU a Chymru i helpu i ddod â llety gwag uwchben siopau yng nghanol trefi yn ôl i ddefnydd.

Yn ystod trafodaeth, siaradodd Aelodau o blaid ymagwedd y Cyngor o ran mynd i'r afael â chysgu allan yn y Sir. Hefyd pwysleisiwyd effaith polisi'r Llywodraeth ar eiddo sy'n cael eu rhentu a thaliadau uniongyrchol.

Fel cynrychiolydd Sir y Fflint ar y strategaeth ranbarthol, dywedodd y Rheolwr Strategaeth Tai fod yr ymagwedd hefyd yn darparu cyfleoedd cadarnhaol ar gyfer rhannu arfer gorau a dysgu.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod y Pwyllgor yn cefnogi Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru a chynllun gweithredu lefel uchel; a

(b) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r camau gweithredu a flaenoriaethir ac a amlygir o fewn cynllun gweithredu lleol Digartrefedd Sir y Fflint, fel y nodir yn yr adroddiad.

## 46. CYNLLUN Y CYNGOR 2018/19 – MONITRO CANOL BLWYDDYN

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Tai ac Asedau) yr adroddiad cynnydd canol blwyddyn ar berfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor 2018/19 gan ganolbwyntio ar feysydd o dan berfformio o dan flaenoriaethau 'Cyngor Cefnogol' a 'Chyngor Uchelgeisiol' oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

Cyfeiriwyd at gynnydd cadarnhaol yn gyffredinol gyda 81% o'r gweithgareddau yn debygol o gyflawni'r canlyniadau oedd wedi eu cynllunio ar eu cyfer a 79% o'r dangosyddion perfformiad yn cwrdd neu'n mynd y tu hwnt i'w targedau yn ystod y cyfnod. Roedd y risgiau hefyd yn cael eu rheoli'n llwyddiannus gyda'r mwyafrif yn cael eu hasesu'n risgiau cymedrol neu'n fân risgiau.

O dan flaenoriaeth y Cyngor Cefnogol, roedd yna ddangosydd perfformiad coch ar y nifer o ddiwrnodau i brosesu newid mewn amgylchiadau ar gyfer budd-daliadau tai. Dywedodd y Rheolwr Budd-daliadau fod y newidiadau mewn Credyd Cynhwysol yn her allweddol i'r tîm. Dywedodd fod rhai absenoldebau hir dymor gan weithwyr wedi eu datrys a bod Hyfforddeion Modern yn cael eu hannog i lenwi nifer o swyddi gwag dros dro. Ar y dangosydd coch am y cyfanswm o incwm ychwanegol oedd wedi'i dalu i breswylwyr Sir y Fflint o ganlyniad i waith a wnaed gan y Cyngor, eglurodd y byddai ffigyrau hwyr a ddarparwyd gan bartneriaid allanol yn gwella'r canlyniad terfynol ar gyfer yr adroddiad nesaf.

Yr unig brif faes risg oedd y potensial am lefelau dyled cynyddol pe na allai tenantiaid fforddio talu eu rhent neu eu Treth Cyngor, derbyniwyd adroddiad manwl ar hynny yn y cyfarfod diwethaf.

Mynegodd aelodau eu siom tuag at ymateb yr Adran Waith a Phensiynau i bryderon ynglŷn â newidiadau arfaethedig i drefniadau cyllid grant.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Reece ar nodi tir addas ar gyfer datblygiadau tai yn y dyfodol, dywedodd y Cynghorydd Attridge y byddai gwaith ar gyn safle depo Canton yn mynd yn ei flaen yn y Flwyddyn Newydd.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 47. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Wrth ystyried y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gyfredol, cytunodd y Pwyllgor y byddai'r canlynol yn cael eu trefnu ar gyfer y Flwyddyn Newydd:

- Adroddiad ar amodau benthyca cyfredol a chyfraddau llog, yn dilyn cais yng nghyfarfod diweddar y Cyngor Sir.
- Adroddiad ar ganol trefi.
- Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu Lleol Digartrefedd.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol; a

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

**48. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Roedd un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.40pm)

**..............................**
**Y Cadeirydd**